

Erthygl 7 - Y Bwrdd Gweithredol

7.1 Rôl

Bydd y Bwrdd Gweithredol yn cyflawni holl swyddogaethau'r awdurdod lleol nad yw'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt, boed hynny yn ôl y gyfraith neu o dan y trefniadau gweithredol hyn. Bydd y Bwrdd Gweithredol, wrth ymarfer y swyddogaethau hyn, yn gwneud hynny o fewn y Fframwaith Polisi a Chyllideb bennwyd gan y Cyngor yn unol â'r trefniadau hyn. Hefyd mae gan y Bwrdd Gweithredol rôl allweddol o ran cynnig y Fframwaith Polisi a Chyllideb i'r Cyngor a gweithredu a monitro ei Bolisiau a'i Arferion ar gyfer Rheoli'r Drysorfa. Yn ogystal, bydd y Bwrdd Gweithredol a'i aelodau yn arwain y broses Cynllunio Cymunedol; yr ymgyrch dros wella gwasanaethau'n barhaus drwy Raglen Cymru ar gyfer Gwella; arwain y gwaith o baratoi polisiau'r Cyngor a goruchwyllo'r gwaith o'u gweithredu wedi hynny; cymryd penderfyniadau o fewn y flwyddyn ar adnoddau a blaenoriaethau yn ddarostyngedig i Reolau Gweithdrefn y Fframwaith Polisi a Chyllideb; a bod yn ffocws ar gyfer ffurfio partneriaethau â chyrff y sector cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol lleol eraill i fynd i'r afael ag anghenion lleol. Bydd y Bwrdd Gweithredol hefyd yn ystyried ac yn ymateb i unrhyw argymhellion ac adroddiadau o'r Pwyllgorau Craffu, Pwyllgorau Rhanbarthol, Pwyllgorau Rheoleiddio a Phwyllgorau eraill, Paneli Ymgynghorol a'r Pwyllgor Safonau.

7.2 Rolau a Swyddogaethau'r Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd(ion) ac Aelodau'r Bwrdd Gweithredol

Ceir Proffiliau swyddi a Manylebau Person yr Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd(ion) ac Aelodau'r Bwrdd Gweithredol yng Nghynllun Lwfansau'r Cynghorwyr a'r Aelodau Cyfetholedig (Rhan 6.1 o'r Cyfansoddiad hwn).

7.3 Ffurf a Chyfansoddiad y Bwrdd Gweithredol

Gelwir gweithrediaeth y Cyngor yn "Fwrdd Gweithredol", ac aelodau'r Bwrdd Gweithredol fydd yr Arweinydd, a etholir i'r swydd honno gan y Cyngor, a deuddeg Cynghorydd arall a benodir gan yr Arweinydd (gan gynnwys hyd at ddau Ddirprwy Arweinydd). Dim ond Cynghorwyr y gellir eu penodi yn aelodau o'r Bwrdd Gweithredol.

Hefyd mae gan yr Arweinydd y grym i benodi Arweinydd sy'n rhannu swydd ac Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol sy'n rhannu swydd, ar yr amod nad yw'r nifer fwyaf sydd ar y Bwrdd yn fwy na thair ar ddeg (dod i rym ar 1 Mai 2022).

Gall yr Arweinydd benodi 'Cynorthwywyr i'r Weithrediaeth' nad ydynt yn Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol ond mae hawl ganddynt i fynychu, ac i siarad yn, unrhyw gyfarfod o'r Bwrdd Gweithredol neu unrhyw Bwyllgorau'r Bwrdd Gweithredol (*dod i rym 1 Mai 2022*).

(Ni chaniateir aelodau cyfetholedig na dirprwyon nac aelodau yn lle Aelodau'r Bwrdd Gweithredol. Ni cheir penodi Cadeirydd nac Is-gadeirydd y Cyngor yn aelod o'r

Bwrdd Gweithredol, ac ni all aelodau o'r Bwrdd Gweithredol fod yn aelodau o Bwyllgor Craffu.)

Gellir penodi aelod i'r Bwrdd Gweithredol dros dro yn lle Aelod o'r Bwrdd Gweithredol sydd wedi ymarfer ei hawl i absenoldeb teuluol o dan Ran 2 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Bydd Arweinydd y Cyngor yn parhau yn ei swydd tan etholiad nesaf y Cyngor neu tan pa un bynnag o'r canlynol (a) - (d) ddaw gyntaf:

- (a) ei fod ef/ei bod hi yn ymddiswyddo; neu
- (b) ei fod ef/ei bod hi yn cael ei wahardd rhag bod yn Gynghorydd o dan Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (er y gall ef/hi ddychwelyd i'w swydd ar ddiwedd cyfnod y gwaharddiad); neu
- (c) nad yw ef/hi bellach yn Gynghorydd;
- (d) ei fod ef/ei bod hi'n cael ei symud o'i swydd drwy benderfyniad y Cyngor.

Bydd Cynghorwyr y Bwrdd Gweithredol yn aros yn eu swyddi tan etholiad nesaf y Cyngor neu tan pa un bynnag o'r canlynol (a) - (c) ddaw gyntaf:

- (a) eu bod yn ymddiswyddo neu bod yr Arweinydd yn eu symud o'u swyddi;
- (b) eu bod yn cael eu gwahardd rhag bod yn gynghorwyr o dan ran iii o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (er y gallant ddychwelyd i'w swyddi ar ddiwedd cyfnod y gwaharddiad); neu
- (c) nad ydynt bellach yn Gynghorwyr.

CYNHWYSWYD PORTFFOLIOS AELODAU O'R BWRDD GWEITHREDOL FEL RHAN O BROFFIL SWYDD YR ARWEINYDD YNG NGHYNLLUN LWFANSAU'R CYNGHORWYR A'R AELODAU CYFETHOLEDIG

7.4 Trafodion y Bwrdd Gweithredol

Rhaid i drafodion y Bwrdd Gweithredol ddigwydd yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn ar gyfer y Weithrediaeth a nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn.

7.5 Cyfrifoldeb am Swyddogaethau

Bydd awdurdod dirprwyedig gan bob aelod o'r Bwrdd Gweithredol i gyflawni'r holl bwerau sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Cyngor Sir ac sy'n ymwneud â'r portffolio sydd ganddynt, yn ddarostyngedig i:

- (a) gyflawni'r pwerau a ddirprwywyd i Swyddogion;
- (b) peidio ag ymarfer y swyddogaethau hynny mewn modd a fyddai'n:
 - (1) newid polisiau neu strategaethau a gymeradwywyd;
 - (2) creu polisiau neu strategaethau newydd;
 - (3) gwneud penderfyniadau ynghylch dod â gwasanaeth cyhoeddus i ben neu ei addasu;
 - (4) penderfynu ar bwerau neu ddyletswyddau newydd sylweddol yn sgil deddfwriaeth newydd;

(c) y penderfyniadau hynny a wneir yng Nghyfarfodydd Penderfyniadau'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, a gynullir ac a gofnodir yn ffurfiol gan y Prif Weithredwr.

7.6 Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013

Cynnal "Gwrandawiadau Cais" llafar yn erbyn achosion lle mae Swyddogion wedi gwrthod ceisiadau.

7.7 Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol yn Gweithredu fel Ymddiriedolwyr

Gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag Ymddiriedolaethau mae'r Cyngor yn Ymddiriedolwr Corfforaethol arnynt.